

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

Dyfodol casglu data ystadegol amaethyddol yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: **22 Mawrth 2013**

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **24 Mai 2013**

Trosolwg Adolygu'r dulliau sy'n cael eu defnyddio i gasglu data yng Nghymru a beth sydd angen ei wneud yn y dyfodol. A ddylem edrych ar ddulliau newydd; a ddylem barhau fel cynt; a oes modd uno/dileu/symleiddio arolygon – sut gall Ystadegau Amaethyddol weithio'n hwylusach yn y dyfodol?

Sut i Ymateb Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad trwy ddefnyddio'r ddalen Excel neu ei fersiwn pdf. Ar gyfer y fersiwn Excel, llenwch hi a chadw'r copi ichi'ch hun ar eich cyfrifiadur a'i brintio. Ebostiwch gopi hefyd at stats.agric@cymru.gsi.gov.uk neu bostio copi caled o naill ai'r copi Excel neu pdf at:

Richard Hughes
Ystadegau Amaethyddol a Materion Gwledig
Rhadbost NAT 8910
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (KAS)
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3BR

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

[UK Statistics Authority assessment report](#) (Saesneg yn unig)

[National Statistics Review of Sheep Numbers at December in England](#) (Saesneg yn unig)

Manylion cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

Richard Hughes
Ystadegau Amaethyddol a Materion Gwledig
Rhadbost NAT 8910
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (KAS)
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3BR

Ebost: stats.agric@cymru.gsi.gov.uk

Ffôn: 0845 010 2233

Diogelu Data

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, ticiwch y blwch isod. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Cefndir

Fel yr ymgynghoriad diweddar ar gyfer yr Adolygiad o Allbynnau Ystadegau Amaethyddol, lle edrychwyd ar yr ystod o ystadegau amaethyddol sy'n cael eu cynhyrchu yng Nghymru; rydym am ganolbwyntio yn y fan yma ar y prif ffynonellau data – sef y ddau brif arolwg a gynhelir bob **mis Mehefin a mis Rhagfyr**. Mae nhw'n cael eu cynnal hefyd gan Adrannau Ystadegol Amaethyddol eraill y Deyrnas Unedig. Rydym yn cynnal arolygon afreolaidd hefyd yn ôl y gofyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn casglu'r rhan fwyaf o'i data amaethyddol yn Arolwg Amaethyddol a Garddwrol Mehefin ac Arolwg Amaethyddol Rhagfyr. Cynhelir y ddau i fodloni rheoliadau'r UE 1165/2008 (gwartheg, moch a defaid) a 543/2009 (cnydau a thir).

Mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) yn Lloegr yn cynnal arolygon hefyd dros ac ar ran Llywodraeth Cymru. Enghraifft o hynny yw'r Stocrestr Flynyddol o Ddefaid a Geifr – cyfrifiad gorfodol o dan Reoliad 1505/2006 yr UE.

Mae arolwg Mehefin wedi bod yn cael ei gynnal bob blwyddyn ers 1867.

Mae Arolwg Rhagfyr wedi bod yn cael ei gynnal bob blwyddyn ers 1951.

Maent wastad wedi'u cynnal fel Cyfrifiadau papur.

Tan 1995, roedd Arolwg Mehefin yn gyfrifiad llawn o bob fferm gofrestredig. Ers 1996, mae wedi'i gynnal fel **Arolwg** sampl ond bob deng mlynedd (2010 oedd y tro diwethaf), mae'n cael ei gynnal fel **Cyfrifiad** llawn (o fewn rhai meini prawf penodol) yn unol â rheoliad 1166/2008 yr UE ar Arolygon o Strwythurau Fferm.

Mae llenwi'r Arolwg yn fater o orfodaeth, yn unol â Deddf Ystadegau Amaethyddol 1979, (Adran 1 (1)) sydd bellach yn dod o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 RhS.672.

Rydym yn cynnal arolygon hefyd lle ceir ymrwymiad i fodloni deddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth neu lle ceir gofyn cyfreithiol gan yr Undeb Ewropeaidd i wneud hynny yng Nghymru ar ran y Deyrnas Unedig.

Rydym hefyd yn cynnal arolygon afreolaidd yn ôl y gofyn.

Rhesymau dros gynnal yr ymgynghoriad

Nid yw peidio â chasglu data (o arolygon a/neu ffynonellau gweinyddol) yn opsiwn gan fod yn rhaid bodloni gofynion statudol;

- Mae angen inni ystyried eto'r baich papur y mae ein cwsmeriaid yn gorfod ei ysgwyddo wrth ateb arolygon yn y dyfodol, yn enwedig o gofio 'Hwyluso'r Drefn', a rhoi gwerth eu harian iddynt.
- Rhaid inni hefyd ystyried yr opsiynau ariannu o flwyddyn ariannol 2013-2014 ymlaen a'n hymrwymiad i gynnal arolygon statudol i fodloni rheoliadau Ewrop. Wrth wneud, mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng yr hyn y mae *angen* inni ei gasglu a'r hyn y mae'n *rhaid* inni ei gasglu.
- O safbwynt ariannu yn y dyfodol, bydd yn rhoi cyfle inni edrych ar ddulliau eraill o gasglu data, fel ffurflenni ar-lein, arolygon dros y ffôn a ffynonellau data eraill.
- Hefyd, er mwyn ysgafnhau baich gwaith papur ein cwsmeriaid, mae DEFRA wedi rhoi'r gorau i'w Harolwg Amaethyddol Rhagfyr ac yn defnyddio data o'r Stocrestr Flynyddol o Ddefaid a Geifr (sy'n ofynnol o dan gyfraith yr UE) yn ei le, hynny ar ôl Adolygiad Ystadegol Blynyddol o Nifer y Defaid ym mis Rhagfyr yn Lloegr. Cewch weld yr adolygiad hwnnw [yma](#) (Saesneg yn unig). Daw data eraill o ffynonellau gweinyddol a/neu arolygon dros y ffôn.

Cynigion ar gyfer newid

Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw gofyn i ddefnyddwyr am eu barn am gynigion ynghylch y dulliau y dylid eu ddefnyddio yn y dyfodol i gasglu data ystadegol amaethyddol yng Nghymru.

Bydd eich cyfraniadau'n ein helpu i ddeall effaith y newidiadau hyn ar unigolion a sefydliadau sy'n defnyddio'r canlyniadau ystadegol a hefyd ar y gwaith casglu data amrwd rydym yn ei gynnal a sut y gellid newid neu wella'r gwaith hwnnw, os o gwbl.

Fodd bynnag, da o beth yw dweud eto bod rheidrwydd ar Lywodraeth Cymru i gasglu data i fodloni deddfwriaeth statudol (y DU a'r UE) felly nid yw peidio â chynnal unrhyw fath o gasgliad yn opsiwn.

Rydym yn rhoi **dau** gynnig ger bron. Mae nhw'n berthnasol gan fwyaf i'r holl fodolau casglu presennol ac yn effeithio ar ddatblygiadau nawr ac yn y dyfodol:

Ar hyn o bryd mae Ystadegau Amaethyddol a Materion Gwledig yn defnyddio ffurflenni papur i gasglu'r rhan fwyaf o'r wybodaeth ystadegol a gyhoeddir, a bydd angen parhau i wneud hynny yn y tymor byr; fodd bynnag, rydym yn bwriadu edrych ar y dulliau presennol o gasglu data ac asesu ac archwilio ffynonellau data eraill a dulliau o ysgafnhau baich y gwaith papur. Byddem yn croesawu eich barn a'ch ystyriaeth o ddulliau eraill o gasglu data.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Parhau â ffurflenni papur, a'u hanfon allan naill ai ar adegau penodol o'r flwyddyn neu ar ddyddiad penodol/cyfnod ar gyfer arolygon ad hoc – i bob pwrpas, cadw pethau fel ag y maen nhw, gan fodloni'r holl ymrwymadau cyfreithiol a statudol.
- Ystyried dulliau newydd o gasglu data, er enghraifft, ffurflenni ar-lein, arolygon dros y ffôn ac ati.

Rhoi'r gorau i Arolwg Amaethyddol Rhagfyr (gan gynnwys cwestiynau am gnydau, gwrtaith a gwair/silwair) ac ystyried opsiynau ar gyfer defnyddio'r Stocrestr Defaid a Geifr yn ei le.

- Arolwg dros y ffôn o ffermwyr moch (sy'n bodloni'r trothwy samplu – bydd yn dal angen iddo fodloni deddfwriaeth yr UE);
- Uno Arolwg Amaethyddol Rhagfyr â'r Stocrestr Defaid a Geifr i leihau baich gwaith papur ein cwsmeriaid.
- Defnyddio data Stocrestr Defaid a Geifr Cymru fel ffynhonnell data ystadegol weinyddol (ar hyn o bryd, nid yw data'r Stocrestr yn cael eu defnyddio at bwrpas ystadegol).

Pa ganlyniadau y gallwn eu disgwyl?

Os cytunir ar y cynigion yn yr ymgynghoriad, byddwn yn rhoi'r newidiadau ar waith fesul nifer o gamau, gan adolygu pob eitem yn rheolaidd:

- **Parhau â'r system ffurflenni papur bresennol fel ag ar hyn o bryd a'i hadolygu'n achlysurol; Pwysig: *bydd wastad angen cynnal rhyw faith o gasgliad data papur h.y. arolygon afreolaidd;***
- **Ymateb i ddarpariaeth ar-lein bosibl a sut y câi ac y gellid ei darparu;**
- **Arolwg Amaethyddol Rhagfyr 2012 fydd yr arolwg papur olaf. Byddwn yn ystyried troi at ffynonellau data gweinyddol gan fod y data ar gael mewn manau eraill;**
- **Bydd allbwn o hyd h.y. byddwn yn dal i gyhoeddi canlyniadau Arolwg Rhagfyr h.y. ffigurau defaid a moch a gwartheg ar gyfer Cymru;**
- **Defnyddir y data am wrtaith a gesglir trwy Arolwg Prydain o Arferion Gwrteithio ond er bod yr wybodaeth lawer manylach, fe'i cyhoeddir ar lefel E&W a Phrydain Fawr yn unig;**
- **Defnyddir y data am gnydau'r hydref a'r gaeaf a gesglir gan yr Awdurdod Ydau Cartref;**
- **Nid oes unrhyw ffynhonnell weinyddol arall yn casglu data am wair, silwair a chnydau silweirio felly bydd angen inni edrych sut ydym yn defnyddio'r elfen hon yn ein cyhoeddiadau. Wedi dweud hynny, nid oes rheidrwydd cyfreithiol arnom i gasglu'r wybodaeth.**

Cynnig 1

Ar hyn o bryd mae Ystadegau Amaethyddol a Materion Gwledig yn defnyddio ffurflenni papur i gasglu'r rhan fwyaf o'r wybodaeth ystadegol a gyhoeddir, a bydd angen parhau i wneud hynny yn y tymor byr; fodd bynnag, rydym yn bwriadu edrych ar y dulliau presennol o gasglu data ac asesu ac archwilio ffynonellau data eraill a dulliau o ysgafnhau baich y gwaith papur. Byddem yn croesawu eich barn a'ch ystyriaeth o ddulliau eraill o gasglu data.

- Roedd 74 o argymhellion yn yr adroddiad "[Hwyluso'r Drefn](#)" ar gyfer Llywodraeth Cymru ynghylch sut i reoleiddio'n well o fewn fframwaith priodol, gwella gwasanaethau i ffermwyr a chynyddu elw busnesau'r sector.
- Cewch weld ymateb manwl Llywodraeth Cymru i argymhellion yr adroddiad yn y fan [yma](#).
- Ar hyn o bryd, rydym yn gorfod casglu'r wybodaeth naill ai o dan ddeddfwriaeth y DU neu ddeddfwriaeth yr UE, ond gan mai ni fydd yn gorfod talu am y costau uniongyrchol o 2014 ymlaen, mae Llywodraeth Cymru am wneud yn siŵr ein bod yn cael y gorau o'n harian. Byddai hynny'n un o'r ystyriaethau mewn unrhyw gynnig yn y dyfodol ar gyfer gwella'r drefn.
- Mae casglu data o ffynonellau gweinyddol yn un opsiwn, ond *nid* yw ffynonellau gweinyddol yn gallu darparu'r holl wybodaeth y gallem ofyn amdani. Enghraifft dda yw'r sylwadau rydym yn eu derbyn yn gofyn inni godi gwybodaeth o'r Ffurflen Cais Sengl (SAF) (a ddefnyddir i dalu taliadau) yn hytrach nag anfon Arolygon at bobl.
 - Prin yw'r wybodaeth sydd ar y ffurflen SAF am rai pynciau ond ceir cyfoeth am agweddau eraill. Er enghraifft, mae'n gofyn am nifer defaid, ond er mwyn bodloni gofynion yr UE, mae angen gwybodaeth am ŵyn ac oed y ddiadell arnom hefyd.

Pa newidiadau penodol ydym ni'n eu cynnig?

- ***Dyma'r sefyllfa gydag arolygon – maen nhw i gyd yn arolygon papur, a rhaid casglu'r wybodaeth – y cwestiwn i'w ofyn yw ai dyma'r dull gorau. A ddylem gadw pethau fel y maen nhw neu eu newid?***
- ***Gallai fod yna ddadl o blaid cadw'r arolygon papur nes y daw amser pan fydd yr holl ffynonellau gwybodaeth ar gael yn weinyddol neu y ceir dull gwahanol o gasglu h.y. ar-lein.***
- ***Bydd wastad rhywfaint o arolygon papur e.e. arolygon afreolaidd.***

- ***Rhaid ystyried opsiynau eraill hefyd, fel defnyddio data'r SAF, ffurflenni ar-lein, arolygon dros y ffôn a ffynonellau data gweinyddol eraill (cyn belled â'u bod yn ddigon dibynadwy at ein dibenion ni ac ati).***

Y dystiolaeth o blaid newid

- Ymateb ein cwsmeriaid, a gostyngiad amlwg yn y ganran sy'n llenwi'r arolygon (e.e. pam na allwch ddefnyddio'r SAF i gael yr wybodaeth; dw i ddim yn llenwi hwn, mae e eisoes ar y SAF ac ati) – mae hyn wedi effeithio ar werth y data a gesglir.
- Ar hyn o bryd, dyma'r ffordd gyflymaf o gasglu data ond o'i chymharu â ffynonellau gweinyddol ac arolygon ar-lein (lle ceir sampl fwy a chyfradd ymateb uwch), nid hon o reidrwydd yw'r ffordd fwyaf cost effeithiol.
- Mae diffyg ymateb yn effeithio ar y canlyniadau a cheir costau uniongyrchol cysylltiedig o ran postio, argraffu, cardiau atgoffa ac ati.

Cwestiynau ymgynghori penodol;

- A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gario ymlaen i ddefnyddio arolygon papur? Os nad ydych, pa ddulliau eraill ydych chi'n credu y gallem eu defnyddio?
- Ai arolygon papur yw'r ffordd orau o gynnal arolygon afreolaidd bychan?
- A ydych chi'n credu y dylem roi'r Arolygon blynyddol ar-lein? Os ydych, esboniwch pam eich bod yn credu hynny a beth fyddai'r manteision i chi. Os nad ydych, rhowch eich rhesymau.
- A ydych chi'n defnyddio'r data yn ein cyhoeddiadau? Os ydych, pa ddata a beth ydych chi'n ei wneud gyda'r data hynny?
- Y ffurflenni hyn sydd ar hyn o bryd yn darparu'r rhan fwyaf o'r wybodaeth a gyhoeddir yn ein Datganiadau Ystadegol, penawdau, cyhoeddiadau a bwletinâu. Pe na bawn yn casglu data, gallai hynny o bosibl effeithio ar y cyhoeddiadau hynny – beth fyddai effaith peidio â chasglu unrhyw ddata (a thrwy hynny peidio â chyhoeddi data) ar eich gwaith? Rhowch resymau ac enghreifftiau.
- A oes yna ddata nad ydynt yn cael eu casglu yr hoffech eu gweld yn cael eu casglu? Os oes, rhowch eich rhesymau a'u dibenion posibl.

Cynnig 2

Rhoi'r gorau i gynnal Arolwg Amaethyddol Rhagfyr (gan gynnwys y cwestiynau am gnydau, gwrtaith a gwair/silwair) ac ystyried yr opsiynau ar gyfer defnyddio'r Stocrestr Defaid a Geifr ac ffynonellau eraill yn ei le.

Cefndir

- Dyletswydd Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod elfen Cymru o Stocrestr y DU yn cael ei chynnal. DEFRA sy'n trefnu'r logisteg ar gyfer ffurflenni'r Stocrestr dros ac ar ran Llywodraeth Cymru.

Pa newidiadau penodol ydym ni'n eu cynnig?

- ***Rhoi'r gorau i'r Arolwg Amaethyddol Rhagfyr a defnyddio'r Stocrestr Defaid a Geifr yn ei le;***
 - ***Mae deddfwriaeth gyfredol yr UE ynghylch Arolwg Rhagfyr yn dweud mai dim ond gwybodaeth am ddefaid, gwartheg a moch sydd ei hangen.***
 - ***Daw'r data am wartheg yn uniongyrchol gan y CTS (BCMS).***
 - ***Mae nifer y moch yn ddigon bach fel y gwnâi arolwg dros y ffôn y tro.***
 - ***Mae'r data am gnydau a gwrtaith sy'n cael eu casglu ar Arolwg Rhagfyr yn cael eu cyhoeddi mewn manau eraill ar y cyd ag Arolwg Prydain o Arferion Gwrteithio a'r Awdurdod Ydau Cartref (HGCA).***
 - ***Nid oes data am wair a silwair ar gael mewn man arall fel ffynhonnell weinyddol ond nid oes gofyn cyfreithiol i'w casglu.***
- ***Defnyddio data Stocrestr Defaid a Geifr Cymru fel ffynhonnell data ystadegol gweinyddol ar ôl eu dilysu a'u gwerthuso.***
 - ***Ar hyn o bryd, nid oes defnydd ystadegol yn cael ei wneud o ddata'r Stocrestr a gesglir yng Nghymru.***

Y dystiolaeth o blaid newid

- I leihau baich y gwaith papur ar eu cwsmeriaid, mae DEFRA bellach wedi uno'r Stocrestr Defaid a Geifr flynyddol ac Arolwg Amaethyddol Rhagfyr ar ôl Adolygiad o'r Ystadegau Gwladol o Nifer y Defaid ym mis Rhagfyr yn Lloegr. Darllenwch yr Arolwg yn y fan [yma](#). (Saesneg yn unig)
- Mae arolwg tebyg yn cael ei gynnal yng Nghymru gan y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadasnodd (KAS); fodd bynnag, o ran y logisteg, nid yw cynnal dau arolwg gyda mis o fwlch rhyngddynt sy'n gofyn yr un cwestiynau neu gwestiynau tebyg, yn enghraifft o arfer da.
- Mae Arolwg Rhagfyr fel arfer yn cael ei anfon at 5,000 o ffermwyr; a bydd tua 16,000 o ffermwyr yn cael copi o'r Stocrestr.
 - Mae tua 70% o'r Stocrestr yn cael eu llenwi – 11,200 o ymatebion.
 - 60% sy'n llenwi'r Arolwg mis Rhagfyr – tua 3,000 o ffurflenni.

Bydd sgôp y data o'r ymatebion yn llawer mwy cynrychioliadol na'r Arolwg Rhagfyr presennol.

- Daw data am wartheg o'r CTS (BCMS) eisoes.
- Bydd y canlyniadau'n dal i gael eu cyhoeddi; gellid cyfeirio darllenwyr at ffynonellau data eraill a ddarperir gan DEFRA a'r HGCA am wrtaith a chnydau.
- Ar hyn o bryd, nid oes ffynonellau data eraill am wair, silwair a chnydau silweirio ond bydd yr ymgynghoriad hwn, gobeithio, yn dangos faint o ddefnydd sy'n cael ei wneud o'r data. At hynny, nid oes rheswm cyfreithiol dros gasglu'r data.

Cwestiynau ymgynghori penodol;

- A ydych chi'n cytuno y dylid rhoi'r gorau i Arolwg Amaethyddol Rhagfyr yng Nghymru a defnyddio data'r Stocrestr yn lle data'r Arolwg? Os ydych, esboniwch pam.
- A ydych chi'n credu y byddai rhoi'r gorau i Arolwg Amaethyddol Rhagfyr yn effeithio ar eich gwaith? Os ydych, dywedwch pam.
- Mae data gweinyddol am gnydau a gwrtaith ar gael mewn ffynonellau eraill – oeddech chi'n gwybod hynny? Os nad oeddech, hoffech chi ragor o wybodaeth?
- Ydych chi'n defnyddio data sy'n deillio o'r cwestiynau am wair a silwair ar ffurflen mis Rhagfyr? Os ydych, a wnaiff dod â'r arolwg i ben yneffeithio arnoch chi? Esboniwch sut.